

Dymchweliad arfaethedig y prif adeilad cyfredol a strwythurau sy'n weddill ac adeiladu canolfan ddata orfawr newydd (Dosbarth Defnydd B8)

ATODLEN 1B: HYSBYSIAD AM GYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORIAD CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO O DAN ERTHYGLAU 2C A 2D

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

Rhoddir hysbysiad bod Microsoft yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ddymchwel prif adeilad(au) cyfredol ac adeiladu canolfan ddata orfawr newydd, ar safle'r cyn Waith Gweithgynhyrchu Quinn Radiator ar Lôn Duffryn, Coedcernyw, Casnewydd.


Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i bobl roi eu sylwadau'n uniongyrchol i'r datblygwr am y cynigion cyn iddynt gyflwyno cais cynllunio i Gyngor Dinas Casnewydd.

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cyhoeddi unrhyw gais cynllunio dilynol. Ni fydd y sylwadau a ddarparwch mewn ymateb i'r hysbysiad hwn yn effeithio ar eich gallu i gyflwyno sylwadau i Gyngor Dinas Casnewydd am unrhyw gais cynllunio perthnasol.

Dylech nodi y gallai unrhyw sylwadau a gyflwynir gael eu rhoi ar y ffeil gyhoeddus.

Mae'r datblygiad arfaethedig ar safle cyn Waith Gweithgynhyrchu Quinn Radiator ar Lôn Duffryn, Coedcernyw, Casnewydd.

Mae lleoliad y safle i'w weld ar y map isod.



Cewch weld copïau o'r cais arfaethedig, y cynlluniau a'r dogfennau cefnogi eraill ar-lein ar: <https://imperialparkconsultation.co.uk/>

Mae cyfleusterau cyfrifiadurol ar gael i weld yr wybodaeth hon ar-lein yn Llyfrgell Tŷ Tredegar yn ystod yr oriau agor hyn:

| Oriau Agor | |
|------------|--------------------------|
| Llun | Ar gau |
| Mawrth | 9:00- 13:00; 14:00-16:30 |
| Mercher | 13:30 – 16:30 |
| Iau | Ar gau |
| Gwener | 9:00- 13:00; 14:00-16:30 |
| Sadwrn | 9:00 – 13:00 |
| Sul | Ar gau |

Rhaid i unrhyw un sydd eisiau cyflwyno sylwadau am y datblygiad arfaethedig hwn ysgrifennu atom ar:

E-BOST ukdc@microsoft.com

FFÔN 0800 915 3677

POST Microsoft: Former Quinn Radiator Site Consultation
D/L 5654 & Company
20 Short's Gardens
Llundain WC2H 9AU

GWE <https://imperialparkconsultation.co.uk/>

Ymatebion i gyrraedd erbyn: 4^{ydd} Rhagfyr 2023

Arwyddwyd: Gareth Jackson, Carter Jonas
(ar ran Microsoft)

Dyddiad: 6^{ed} Tachwedd 2023

Carter Jonas